

## **Pam Deddfu?**

**Emyr Lewis**

Bore da. Hoffwn bwysleisio ymlaen llaw mai fy syniadau a fy marn bersonol i a geir yn y sgwrs hon, ac nid barn y Pwyllgor Arbenigwyr fydd, wrth, gwrs, yn cynnal ymchwiliad pellach, unwaith y bydd llywodraeth y DG wedi cyhoeddi ei hadroddiad nesaf, sydd eisoes ryw dri mis yn hwyr.

### **Pam “Pam Deddfu?”**

Dyma oedd her Syr Emyr Jones Parry i wleidyddion Cymru wrth gychwyn ar ei waith fel cadeirydd ei gomisiwn – yr angen am enghreifftiau ymarferol o pam fod angen pwerau deddfu ehangach ar y Cynulliad. Pa ddeddfau fyddwch chi'n eu pasio? Pam na allech chi ddefnyddio ffyrdd eraill o gyrraedd at yr un nod?

Mae adlais o hyn yn y modd y mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi bod yn craffu ar geisiadau gan y Cynulliad am bwerau deddfu dan y drefn bresennol.

Nawr, yn fy marn i, o ran egwyddor, nid yw hwn yn gwestiwn y dylid ei ofyn. Nid oes modd rhagweld yn hollol pryd nac o dan ba amgylchiadau y byddai hi'n fuddiol i'r Cynulliad ddefnyddio pwerau deddfu. Un o ddibenion datganoli yw rhoi'r grym a'r rhyddid i lywodraeth ranbarthol allu deddfu pan fo angen yn gyflym ac yn effeithiol, heb orfod dibynnu ar amserlen a blaenoriaethau'r llywodraeth ganolog.

Ond mae'n rhaid i minnau, ac i bawb arall, fyw yn y byd go iawn a chydabod bod y cwestiwn yma'n un sy'n cael ei ofyn, ac a fydd yn cael ei ofyn eto gan wleidyddion, gweision sifil a dinasyddion hefyd pan ddaw'r pwerau deddfu i Gaerdydd.

Cwestiwn pragmataidd yw un Syr Emyr, yn yr ystyr ei fod am wybod am enghreifftiau ymarferol o sut y gellid gwasanaethu pobl Cymru'n well drwy

ddeddfu. Mae gen i gydymdeimlad mawr a'r agwedd yma, a byddaf yn cynnig ambell i ateb pragmataidd (gobeithio) yn y man, ond cyn gwneud hynny, rwyf am gynnig ateb sydd yn dibynnu ar weledigaeth ychydig yn ehangach efallai am bwrpas a natur deddfu mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

Bues i'n pendroni ynglŷn â beth i alw'r ateb hwn: ateb polisi, ateb egwyddorol? Dwi wedi setlo ar air erchyll, ond sydd yn cipio orau yr hyn 'rwy'n ei olygu, sef yr ateb normadol. Ystyr y gair normadol i mi yn y cyd-destun hwn yw gosod sylfaen mewn deddf ar gyfer lle'r iaith Gymraeg o fewn y politi Cymreig. Mewn geiriau eraill, sefydlu'r norm.

### **Yr ateb normadol 1 – cyfraith ryngwladol**

Dan Erthygl 7 Siarter Ewrop dros Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol mae dyletswydd ar lywodraeth y DG i.....

*seilio eu polisiau, eu **deddfwriaeth** a'u hymarfer ar y nodau a'r agwydoriion a ganlyn: (detholiad)*

*Cydnabod yr ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn fynegiant o gyfoeth diwylliannol*

*Yr angen am weithredu penderfynol i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol er mwyn eu diogelu*

*Hwyluso a/neu annog defnyddio ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, mewn bywyd preifat a chyhoeddus*

Mae hwn yn ddyletswydd sy'n rhwymo'r DG dan gyfraith ryngwladol, ac mae'n cynnwys dyletswydd i ddeddfu.

Mae'r Deyrnas Gyfunol, fel nifer o wladwriaethau eraill, i raddau helaeth iawn wedi datganoli'r cyfrifoldeb am weithredu'r Siarter yn ymarferol i lywodraethau "rhanbarthol" y cyrion Celtaidd. Mae hyn yn synhwyrol. Nid yw hyrwyddo a

diogelu ieithoedd lleiafrifol yn uchel ar restr blaenoriaethau llywodraeth ganolog. Am yr un rheswm, prin iawn yw'r cyfleoedd i ddeddfu mewn perthynas â'r ieithoedd hyn yn Llundain. Mae diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn fwy o flaenoriaeth yng Nghymru, a bydd mwy o gyfle ac o awydd i ddefnyddio grymoedd deddfu.

Ond dim ond ateb y cwestiwn "Pam trosglwyddo grym deddfu?" mae hyn, nid y cwestiwn "Pam deddfu?" Eto, mae'n rhoi allwedd i ni, gan fod yr egwyddorion a ymgorfforir yn Siarter Ewrop yn rhai ddylai fod yn gyrru polisi Llywodraeth Cymru wrth ystyried sut i ddefnyddio pwerau deddfu'r Cynulliad er lles y Gymraeg.

## **Yr ateb normadol 2 – Statws yr iaith Gymraeg**

"Y mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yn y wlad hon. Nid oes rhaid datgan hynny mewn cyfraith. Nid yw'n cael ei ddatgan mewn cyfraith yn achos y Saesneg. Mae'r Saesneg hefyd yn iaith swyddogol."

Syr Wyn Roberts Gorffennaf 1993

Dyma ddangos grym a gwendid diffyg cyfansoddiad ysgrifenedig. Mae modd gwneud datganiad fel hwn am nad yw'r ymadrodd "iaith swyddogol" yn golygu dim byd yn y traddodiad Prydeinig o ddeddfu.

Yn y traddodiad hwnnw, iaith yw iaith, ond mae rhai ieithoedd (ac un iaith yn arbennig) yn fwy cyfartal na'i gilydd. Gellir gwneud rhai pethau'n ddilys mewn unrhyw iaith (ee gwneud cytundeb neu ewyllys), Gellir gwneud rhai pethau dim ond mewn un iaith (sef fel arfer Saesneg) (ee annerch llys yn Lloegr). Caniateir rhai breintiau i ieithoedd eraill (ee annerch llys yng Nghymru yn y Gymraeg), ond weithiau ar yr amod bod y Saesneg hefyd yn cael ei defnyddio (ee arwyddion ffyrdd, neu arwyddo cofrestr priodasau). Weithiau mae rhaid defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â Saesneg (ee arwyddion sy'n hysbysu na chaniateir ysmegu yn y fangre hon).

Does dim grym cyfreithiol, ysywaeth, i ddatganiad Syr Wyn.

Ond, fel mae Gwion Lewis wedi dadlau'n bwerus yn ei gyfrol "Hawl i'r Gymraeg", mae arwyddocâd ymarferol yng nghyfraith y Gymuned Ewropeaidd i iaith gael ei chydabod fel un swyddogol. Dwyf i ddim am ymhelaethu ar hynny, yn hytrach rwyf am gynnig rhesymau eraill pam mai'r prif gam ar gyfer gosod sylfaen gadarn ar gyfer yr iaith Gymraeg, neu sefydlu'r norm, yw datganiad mewn Mesur bod yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.

Mae'n debygol y bydd y drafftwy'r deddfwriaeth traddodiadol yn gwrthwynebu hyn. Dyma'r fath o ddatganiad cyffredinol (niwlog fe ddadleuent) sy'n estron i'r traddodiad deddfu Prydeinig. Os ydym am ei gael, meddent, bydd angen diffiniad manwl o beth a olygir wrth "iaith swyddogol" – pa nodweddion a berthyn iddi dan y gyfraith, a pha ddyletswyddau a chyfyngiadau sydd ynghlwm a hi.

Ond byddwn innau'n dadlau, yn groes i'r arfer Prydeinig, bod angen sefydlu'r egwyddor gyfansoddiadol fel egwyddor gyfreithiol mewn mesur. Pam? Am fod grym y tu hwnt i rym cyfreithiol gan ddeddf. Mae gan ddarn o bapur efo arfbais a llofnod brenhinol arno rym seicolegol a chymdeithasol. Byddai cadarnhau mewn deddf fod yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru yn ffordd briodol ac effeithiol o gladdu yn ffurfiol am byth ysbryd y ddeddfwriaeth a'r achosion llys a sefydlodd y norm o gau'r iaith Gymraeg allan o fywyd cyhoeddus Cymru, ac allan o gynifer o beuoedd eraill; norm sy'n parhau yn rym seicolegol a chymdeithasol go iawn yn ein cymdeithas.

### **Yr ateb normadol 3 – Hawl i'r Gymraeg?**

Mae'r syniad o roi hawl gadarnhaol i ddefnyddio'r Gymraeg hefyd yn estron i'r traddodiad Prydeinig o ddeddfu. Y confensiwn yw bod cyfraith Prydain yn caniatáu popeth, oni bai ei fod yn cael ei wahardd. Hynny yw, mewn theori does dim angen hawl i ddefnyddio'r Gymraeg, gan ei bod yn bodoli eisoes.

Mae'n help i ni ddeall hyn drwy edrych ar faes arall. Mae maes "hawliau" pobl hoyw yn cynnig enghraifft ddiddorol. Yn achos dynion hoyw, nid sefydlu hawliau fel y cyfryw y mae diwygiadau'r hanner can mlynedd diwethaf wedi ei wneud, ond diddymu gwaharddiadau blaenorol ar weithredoedd rhywiol rhwng dynion a'i gilydd. Cymharer â sefyllfa menywod hoyw, lle nad oedd gwaharddiad mewn grym, felly nid oedd angen "cyfreithloni" gweithredoedd rhywiol rhwng dwy fenyw.

Ond mae'r drefn mewn gwledydd eraill yn wahanol. Dyma er enghraifft eiriau Erthygl 6 Statud Gernika, sef Statud Hunanreolaeth Gwlad y Basg.

*Bydd gan "Euskera", iaith y Basgiaid, statws iaith swyddogol yn Euskadi. Bydd hawl gan holl drigolion Euskadi i wybod ac i ddefnyddio'r ddwy iaith.*

*"Euskera", the language of the Basque People, shall, like Spanish, have the status of an official language in Euskadi. All its inhabitants have the right to know and use both languages.*

Nawr, wrth gwrs, mae perygl wrth fabwysiadu'n slafaidd yr hyn sy'n digwydd mewn perthynas â iaith arall mewn gwlad arall, ond mae yna rywbeth yn ddeniadol o syml yn y syniad y gallesid datgan mewn deddf bod hawl gan holl drigolion Cymru i wybod ac i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Dyma sefydlu egwyddor fedrai'n cario ni i'r dyfodol yn hyderus, byddai rhai yn dadlau.

Dwi'n credu, fodd bynnag, fod yna anawsterau ymarferol i'r math yma o hawl pen-agored. Un anhawster yw cyfartaledd hawliau. Fel mae pethau, mae cyfraith Prydain a chyfraith ryngwladol yn cydnabod bod elfen o driniaeth anghyfartal yn briodol, lle bo hynny er mwyn hyrwyddo iaith swyddogol neu iaith leiafrifol.

Dyma, er enghraifft, eiriau'r Llys Apêl yn achos Cyngor Sir Dyfed ym 1999 (crybwyll y ffeithiau):

*In any event, since this family is not briefly in the country but by buying a hill farm has become part of the rural community, there is a possible countervailing argument that these children are part of a Welsh speaking community and may need to be fluent in Welsh in order to integrate within that community. On the information before this court I would not be disposed to find that the Category A school was objectively unsuitable for these children although clearly it is not in accordance with the wishes of the parents.*

Pe bai hawl debyg i'r hawl yng Ngwlad y Basg yn bodoli yng Nghymru, a fyddai hawl, er enghraifft, gan riant ym Mhen-Llŷn i fynnu bod y cyngor sir yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol gynradd Saesneg ei chyfrwng agosaf, fel bod ei blentyn yn medru ymarfer yr hawl i siarad Saesneg yn ddi-dramgwydd?

Wedi dweud hynny, credaf fod dadl dros sefydlu rhai cyd-destunau cadarn lle mae hawl di-amod i ddefnyddio eich dewis iaith - rhywbeth mor elfennol â hawl defnyddio eich dewis iaith mewn sgwrs gyda rhywun arall sydd hefyd yn dymuno defnyddio'r iaith honno, er enghraifft (Peidiwch a synnu ar hyn. Rwy'n credu bod angen sefydlu'r egwyddor hwn. Pe bai achos Thomas Cooke wedi mynd i'r tribiwnlys, nid yw hi'n sicr mai o blaid hawl y gweithwyr i siarad Cymraeg a'i gilydd y byddai'r penderfyniad.)

Ac wedyn dyma holl gwestiwn sefydlu "hawl" i dderbyn gwasanaethau ac yn y blaen drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg – a yw'n ddigon creu fframwaith o ddyletswyddau a gwaharddiadau yn erbyn cam-wahaniaethu, neu a oes angen sefydlu hawliau positif fel y cyfryw?

### **Yr ateb pragmataidd 1 - Boed anwybod yn obaith**

Rhaid i ni gydnabod mai'r prif faen tramgwydd wrth geisio rhoi ateb pragmataidd i'r cwestiwn "Pam deddfu?" heddiw yw ein hanwybodaeth am beth fydd cynnwys y gorchymyn grym deddfu arfaethedig (well gen i'r ymadrodd yma yn y Gymraeg na gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, ond mae "elco", bellach, yn air Cymraeg, felly bwriadaf ei ddefnyddio).

Yn ddelfrydol, wrth gwrs, tri gair fyddai'r Elco iaith yn eu gosod yn Atodlen 5 y Ddeddf, sef "yr iaith Gymraeg". Ond am resymau technegol yn ogystal â rhai gwleidyddol, mae hynny'n annhebygol iawn. Go brin, er enghraifft, y bydd yr elco yn cwmpasu defnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd barn na chwaith darlledu Cymraeg, sydd yn faterion nad ydynt wedi eu datganoli i Gaerdydd.

Ond gadewch i ni fod yn obeithlon. Rhagdybiaf yn y sgwrs hon y bydd yr Elco'n ddigon eang i gynnwys y Gymraeg ym mhob maes y mae gan Lywodraeth y Cynulliad rym gweithredol (executive power) ynddo, dim ond er mwyn dangos beth sydd yn bosibl.

### **Yr ateb pragmataidd 2 – lle'r ydym ni nawr?**

Dan **Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993**, sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel corff hyd-braich sydd a'r ddyletswydd statudol o hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg. Sefydlwyd yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd, a chrewyd y gyfundrefn o gynlluniau iaith gorfodol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Mae'n hawdd bychanu'r Ddeddf hon, a dof at rai o'i diffygion yn y man. Yn fy marn i, mae ei heffaith wedi bod yn fwy arwyddocaol nag y mae ei beirniaid wedi ystyried. Am y tro cyntaf, dyma osod sylfaen ar gyfer cynllunio ieithyddol o fewn deddfwriaeth Brydeinig, a gosod dyletswyddau ar y sector gyhoeddus i barchu ac i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cryfhawyd hyn gan **Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru**, sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi strategaeth ar gyfer yr iaith a math newydd o gynllun iaith (ac mae'n briodol yma heddiw ein bod yn cydnabod ymdrech ac amynedd Gwilym Prys Davies yn sicrhau bod y llywodraeth yn Llundain yn mabwysiadu Adran 78 fel rhan o'r Ddeddf.)

Gyda'r rhain, mae yno hefyd nifer o fan-ddeddfau ac is-ddeddfau, ac ambell i achos llys sydd yn creu corpws o gyfraith yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn benodol. At y rhain gallwn ychwanegu achosion a deddfau Prydeinig ac Ewropeaidd sy'n ymwneud â ieithoedd eraill.

## **Yr ateb pragmataidd 2 – beth sydd angen ei wneud?**

Mae ateb teilwng i'r cwestiwn hwn yn golygu dadansoddiad manwl o'r sefyllfa bresennol, a'i ddiffygion. Mae hefyd angen ystyried nid yn unig beth sydd angen ei wneud, ond sut mae ei wneud o. Nid oes amser i fynd yn fanwl i mewn i'r pynciau hyn.

Eto, fe allwn ni ganolbwyntio ar ambell i thema. Rwyf am ddewis tair thema, sef (1) rheoleiddio cynlluniau iaith, (2) addysg a (3) iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Rwyf hefyd am edrych ar ambell i enghraifft o'r glo man, y pethau blêr hynny sydd yn rhan o bob cyfundrefn gyfreithiol, ond nad oes modd eu newid heb ddeddf.

Ond wrth ateb y cwestiwn yn y cyd-destun yma, mae angen meini prawf mwy gwrthrychol na'r rhai a ddefnyddiais wrth drafod yr ateb normadol. Mewn geiriau eraill, mae angen ateb y cwestiwn pragmataidd mewn modd pragmataidd. Beth, yn ymarferol, ydym ni'n ceisio ei gyflawni drwy ddeddfu, nad oes modd ei gyflawni drwy ddull arall?

## **Yr ateb pragmataidd 3 – rheoleiddio cynlluniau iaith**

A derbyn, am y tro, y bydd yna gyfundrefn o baratoi, cytuno, arolygu a gwerthuso cynlluniau iaith (boed hynny gan Fwrdd yr Iaith neu gan ryw greadur neu greaduriaid newydd), mae'n briodol ystyried sut y gellid gwella ar y gyfundrefn bresennol.

Mae'r Athro Colin Williams, sydd yn aelod o Fwrdd yr Iaith, yn ei gyfraniad i'r gyfrol *Language and Governance* wedi cynnig nifer o ffyrdd y gellir gwella ar y gyfundrefn bresennol, ac mae'n werth edrych yno ar y manylion.

Yn fras, fodd bynnag, mae angen deddfu er mwyn cryfhau'r drefn.

Gellid dadlau mai un rheswm nad yw ambell i gorff cyhoeddus o ddifri ynghylch ei ddyletswyddau o dan ei gynllun iaith yw nad oes gorfodaeth arno i gydymffurfio ag unrhyw ymchwiliad gan y Bwrdd i weld a fu torri ar y cynllun ai

peidio. Rheswm arall yw nad oes sancsiynau effeithiol, er enghraifft lle bo aelod o'r cyhoedd heb dderbyn gwasanaeth sy'n unol a'r cynllun iaith. Mae'r gyfundrefn orfodi yn glogyrnaidd ac yn dibynnu yn y pen draw ar ewyllys gwleidyddol y Gweinidogion ym Mae Caerdydd. Dyw hynny ddim yn rhesymol, na chwaith yn deg, boed i achwynydd nac i gorff cyhoeddus.

Ers pasio Deddf 1993, mae cyfundrefnau ac arferion newydd wedi datblygu er mwyn archwilio arferion a gweithredoedd cyrff cyhoeddus, a sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth.

Mae'n deg dweud nawr, rwy'n credu, mai'r norm yn y cyd-destun hwn yw pwerau archwilio gorfodol, sy'n gosod dyletswydd ar dystion i gydweithredu gyda'r sawl sy'n archwilio, i roi tystiolaeth ac i ddatgelu dogfennau. Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru bwerau felly. Hefyd mae gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus rym i osod sancsiynau le bo camweinyddu wedi bod.

Yn y cyd-destun hwn, ymddengys rywfaint yn od nad yw cyd-ymffurfio a chynlluniau iaith yn cael ei ystyried i fod yn fater digon pwysig ar gyfer cyfundrefn gryfach.

Mae Bwrdd yr Iaith wedi llwyddo i raddau helaeth i ennill ymddiriedaeth, ac felly cydweithrediad, y sector gyhoeddus drwy gymryd agwedd gymharol gyfeillgar, os cadarn, i sefydlu ac arolygu cynlluniau iaith. Ni fyddai raid i'r agwedd honno newid yn sgil creu cyfundrefn gadarnach. Yn wir, buaswn i'n dadlau bod yr agwedd honno'n hanfodol er mwyn parhau a chynnydd; ond byddai cryfhau braich y rheoleiddiwr yn fodd o sicrhau bod y cyrff a reoleiddir yn cymryd cydymffurfio a'u cynlluniau iaith o ddifri'.

#### **Yr ateb pragmataidd 4 - addysg ac iechyd**

Yma, rwyf am droi eto at Siarter Ewrop.

Mewn perthynas ag addysg Gymraeg, mae Prydain yn rhwym dan y Siarter i sicrhau i bob pwrpas bod addysg Gymraeg ar gael i bob plentyn y mae ei deulu'n ei dymuno. Mae hyn yn golygu hefyd sicrhau bod addysg Gymraeg yn hygyrch.

Gyda golwg ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol, mae yna eto ddyletswydd i sicrhau bod rhain ar gael yn y Gymraeg.

Soniais uchod am hawliau, ac am amharodrwydd deddfwriaeth Brydeinig i gydnabod hawliau fel y cyfryw. Yn hytrach, creu dyletswyddau yw tuedd ein deddfau. Ar hyn o bryd, nid yw deddfwriaeth Brydeinig yn cydnabod hawl benodol i dderbyn na dyletswydd benodol i ddarparu addysg Gymraeg.

Yr agosaf y down ati yw Deddf Addysg 1996, sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried ("have regard to") yr egwyddor y dylid addysgu plant yn unol â dymuniadau eu rhieni, cyn belled ag y bo hynny'n cydfynd a darparu addysg effeithlon ac osgoi cost gyhoeddus afresymol.

Nawr, fe wyddom fod yna fylchau difrifol mewn rhai mannau yng Nghymru, mewn darparu addysg Gymraeg. Mae ystadegau'n awgrymu y byddai llawer mwy o rieni'n dewis addysg Gymraeg i'w plant, pe bai honno ar gael o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

Ym maes iechyd, fe wyddom eto fod bylchau, yn arbennig felly mewn perthynas â phlant bach a'r henoed, lle mae iaith yn hollbwysig. Does neb yn dadlau (am wn i) y dylai pob arbenigedd meddygol manwl fod ar gael yn Gymraeg, ond mae'n deg disgwyl hynny ar lefel gofal cynradd, ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac yn y blaen.

A oes angen felly sefydlu dyletswydd statudol yn gysylltiedig â darparu Addysg Gymraeg, a gofal iechyd yn Gymraeg? Dwi'n credu bod hynny'n dibynnu ar ba mor effeithlon yw dulliau eraill o gyrraedd at yr un nod. Y dulliau hynny, wrth gwrs, yw ewyllys gwleidyddol, cynllunio strategol ac adnoddau digonol.

Hyd yn ddiweddar, mae'n deg dweud bod nifer o awdurdodau lleol wedi gweld addysg Gymraeg fel problem, yn hytrach na rhywbeth y mae angen cynllunio yn strategol yn ei gylch. Ar lefel llywodraeth Cymru, nid oedd Iaith Pawb yn delio ag addysg gynradd nac addysg uwchradd mewn modd strategol o gwbl, nac yn gosod gweledigaeth ar gyfer hynny. Eto, mae arwyddion nawr bod llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn dechrau ystyried y pwnc mewn modd strategol.

Yn yr un modd, ym maes iechyd, mae penderfyniad diweddar y gweinidog iechyd Edwina Hart i ganoli penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau yn Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle ar gyfer cynllunio strategol ar draws Gymru gyfan ym maes darparu gofal iechyd yn y Gymraeg.

Dadl y pragmatydd yw, os yw hyn oll yn dwyn ffrwyth ar draws Cymru, gan sicrhau darpariaeth ddigonol, i beth y mae angen deddf? Ac mae'n anodd gwrthod y ddadl honno yn y cyd-destun hwn, oherwydd mae angen cadw sylw'r llywodraethau canolog a lleol ar y dasg o gyflawni, yn hytrach na'u clymu i mewn i drafodaeth am ddeddfu.

Ond os nad yw hyn oll yn dwyn ffrwyth, a hynny'n weddol fuan, beth wedyn? A oes rhaid i ni barhau i ddisgwyl?

Dwi'n credu ym maes addysg yn arbennig fod yno ddadl dros greu dyletswydd o ryw fath yn fuan. Yn ddelfrydol, byddwn am weld dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael i bob plentyn sy'n ei ddymuno mewn ysgol sy'n weddol hygyrch at ei gartref. Dwyf i ddim yn credu, fodd bynnag, fod hynny'n debygol o gyrraedd y llyfr statud. Wedi dweud hynny, gallesid yn hawdd gosod dyletswydd newydd (ni ellir diwygio Adran 78 ni wneud hyn) ar y Gweinidogion yng Nghaerdydd i gynhyrchu ac i gynnal strategaeth benodol ar gyfer addysg Gymraeg (gan gofio gwersi Iaith Pawb), a gosod dyletswydd ar lywodraeth leol i weithredu'n unol a'r polisi hwnnw wrth gynllunio ar gyfer addysg ac wrth gwrdd ag anghenion rhieni a disgyblion unigol, gan ganiatau eithriadau mewn amgylchiadau penodol yn unig.

## **Yr ateb pragmataidd 5 – clirio'r glo man**

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain, o gribinio rwy'n siwr y canfyddem fwy:

Arwyddion ffyrdd - yn ôl i'r dyfodol.

Rhaid i arwyddion ffyrdd yng Nghymru fod yn ddwyieithog, onid oes? Wel, nac oes. Rhaid iddynt fod yn Saesneg, ond caniateir iddynt fod yn ddwyieithog.

Dyma ddywed y *Traffic Signs (Welsh and English Language Provisions) Regulations and General Directions 1985*, rheoliadau y byddai angen grym deddfu ar y Cynulliad i'w diwygio:

### ***Regulation 4 Traffic Signs shown in Schedule 1***

*(1) A sign shown in a diagram in Schedule 1 with the prefix "W" [sef arwydd dwyieithog] followed by a diagram number may be used in Wales in place of a sign bearing the same diagram number without the prefix "W" in Parts I or II of Schedule 1 to the Main Regulations [sef arwydd Saesneg].*

Beth am newid y "may" yna i fod yn "shall"?

## **Ac i gloi**

Fel y dywedais, enghreifftiau yn unig yw'r rhain o' posibiliadau pragmataidd. Ond hoffwn ddychwelyd i gloi at yr awgrym y dylid achub ar y cyfle i ddatgan mewn deddf bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Hidiwn befo am bragmatiaeth a chonfensiwn am y tro. Os ydym yn wir am ddefnyddio grymoedd deddfu er mwyn gwneud newid radical i sefyllfa'r iaith, hwn yw ein cyfle gorau, ac efallai mai hwn fydd ein hunig gyfle, i orseddu'r egwyddor yma mewn deddf.